**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Ein cyf: MA/EM/2188/23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Hydref 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi yn gofyn am ragor o dystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad i ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd. Byddaf yn ymhelaethu ar rôl Estyn wrth fonitro ymyriadau trais ar sail rhywedd mewn ysgolion fel yr ydych wedi gofyn.

Fel rhan o'r broses arolygu mae Estyn yn ystyried materion sy'n ymwneud â bwlio ac aflonyddu o dan faes arolygu 4, 'Gofal, Cymorth ac Arweiniad', ac mae'n cynnwys siarad â dysgwyr am eu profiadau. Mae’r maes arolygu hwn hefyd yn cynnwys diogelu ac mae arolygiadau’n ystyried sut mae ysgolion yn gweithredu eu polisïau diogelu. Yn ogystal, mae maes arolygu 5 'Dysgu Proffesiynol' yn ystyried arweinyddiaeth yr ysgol. Fel rhan o'i chylch gwaith, mae Estyn yn ceisio nodi a hyrwyddo arferion effeithiol ym mhob maes.

Mewn perthynas ag arferion diogelu mewn lleoliadau addysg yn benodol, y gallu i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant yn unol â’r ddeddfwriaeth a’r arweiniad perthnasol a fydd yn llywio barn yr arolygiaeth am berfformiad cyffredinol lleoliad addysg. Ni fydd perfformiad yn y maes hwn yn cael ei farnu ar fodolaeth gweithdrefnau yn unig, ond hefyd ar eu heffeithiolrwydd o ran diogelu plant rhag esgeulustod, camdriniaeth a mathau eraill o niwed. Cyn arolygu ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir, mae Estyn yn ceisio barn athrawon, staff cymorth, llywodraethwyr, pwyllgorau rheoli, cyflogwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr trwy holiaduron cyn-arolygiad.

Disgwylir i ysgolion ac awdurdodau lleol roi sylw i ganlyniadau ac argymhellion arolygiadau Estyn. Mae Estyn hefyd wedi cynnal adolygiadau thematig mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid (*Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru*, Rhagfyr 2021); a phrofiadau dysgwyr LHDTC+ (*Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant – Arfer dda wrth gefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol mewn ysgolion a cholegau*, Hydref 2020).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, mewn perthynas ag anffurfio organau cenhedlu benywod yn benodol, o 1 Gorffennaf 2015, rhaid i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau addysg bellach roi 'sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth'. Mae hyn wedi'i nodi yn adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Canllaw dyletswydd atal cysylltiedig o dan adran 29 o'r Ddeddf.

Mae Estyn yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau bod ysgolion yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys y gofyniad i staff gael hyfforddiant diogelu ac atal gorfodol, sy'n cwmpasu materion fel anffurfio organau cenhedlu benywod. Dylai pob aelod o staff mewn ysgolion fod yn cwblhau'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae gan Cadw Dysgwyr yn Ddiogel hefyd adran ar anffurfio organau cenhedlu benywod a cham-drin ar sail anrhydedd. Mae'n nodi'r gofynion adrodd gorfodol ac yn nodi mor bwysig ydyw bod staff yn dod i adnabod eu cymuned a bod yn effro i unrhyw risgiau posibl.

Mae Estyn yn gwerthuso a yw holl staff yr ysgol yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn disgyblion. Maent hefyd yn ystyried a yw'r holl staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â dyletswyddau Atal. Er nad ydynt yn adrodd ar agweddau unigol fel anffurfio organau cenhedlu benywod, mae arolygiadau yn canolbwyntio ar asesu p'un a yw ysgolion yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn.

Mae holiaduron cyn-arolygiad Estyn ar gyfer staff ysgol, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn arf gwerthfawr i arolygwyr gael mewnwelediad i hyfforddiant a pharodrwydd y rhanddeiliaid hyn, yn enwedig mewn meysydd fel diogelu, hyfforddiant Atal ar radicaleiddio ac atal materion fel anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'r holiaduron hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr sy'n helpu arolygwyr i asesu ymrwymiad yr ysgol i gyflawni ei hymrwymiadau cyfreithiol a sicrhau diogelwch a lles disgyblion.

Yn yr holiaduron hyn, mae'n ofynnol i ysgolion amlinellu'r rhaglenni hyfforddi y mae eu staff a'u llywodraethwyr wedi ymgymryd â nhw. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant, sy'n ymdrin â gwahanol ddimensiynau diogelu. Er enghraifft, gofynnwn i staff a llywodraethwyr roi sylwadau ar "*drefniadau'r ysgol i ddarparu hyfforddiant priodol i staff a llywodraethwyr ar ddiogelu ac amddiffyn plant gan gynnwys hyfforddiant Atal a Thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol"*.

Mae arolygwyr yn defnyddio'r ymatebion o'r holiaduron hyn i fesur a yw holl staff yr ysgol yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i amddiffyn disgyblion yn effeithiol. Bydd cyd-destun yr ysgol yn effeithio ar y graddau y mae arolygwyr yn ystyried gwaith y darparwr yn y maes hwn. Fodd bynnag, rhaid i bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion gydymffurfio â'r ddyletswydd a dylai arolygwyr fod yn fodlon bod y darparwr yn ymwybodol o'r ddyletswydd a'i fod yn gweithredu'n briodol.

Yn ystod y broses arolygu, os bydd arolygwyr yn nodi nad yw ysgolion yn sicrhau bod staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant digonol, byddant yn ystyried effaith y diffyg hwn. Mewn achosion o'r fath, gall arolygwyr benderfynu gwneud argymhellion penodol i'r ysgol, gan bwysleisio'r angen brys i wella rhaglenni hyfforddi a sicrhau bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr wedi'u paratoi'n dda i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol. Bwriad yr argymhellion hyn yw arwain yr ysgol tuag at fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd a gwella ei harferion diogelu.

Mewn achosion o'r fath, bydd arolygwyr yn anfon llythyr lles i'r awdurdod lleol, yn tynnu eu sylw at y diffygion mewn hyfforddiant. Mae'r cyfathrebu hwn yn gweithredu fel hysbysiad ffurfiol, sy'n annog yr awdurdod lleol i ymgysylltu â'r ysgol a'i chefnogi i fynd i'r afael â'r bylchau hyfforddi yn brydlon. Mae'n pwysleisio mor bwysig ydyw cymryd camau unioni i ddiogelu lles disgyblion.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg